Dr Frank Atherton
Prif Swyddog Meddygol
Chief Medical Officer

Yr Athro Jean White CBE
Prif Swyddog Nyrsio
Chief Nursing Officer

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Nyrsio
Cyfarwyddwyr Therapïau a Gwyddonwyr Gofal Iechyd

17 Ebrill 2020

Annwyl Gyfeillion

Ar 12 Ebrill, cyhoeddodd y Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio lythyr ar y cyd i roi gwybod ichi am fframwaith newydd o werthoedd ac egwyddorion ar gyfer darparu gofal iechyd yng Nghymru. Nod y fframwaith yw rhoi arweiniad i wasanaethau gofal iechyd wrth wneud penderfyniadau yn ystod lledaeniad y coronafeirws. Gofynnwyd hefyd ichi rannu'r fframwaith yn eang a sicrhau ei fod yn cael ei fabwysiadu gan yr unigolion sy'n darparu cymorth a thriniaeth yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Er mwyn gallu cyfeirio'n rhwydd atynt, mae dolenni i'r Fframwaith a'r datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol i'w cael isod:

https://llyw.cymru/coronafeirws-werthoedd-ac-egwyddorion-moesegol-ar-gyfer-darparu-gofal-iechyd

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ar-waith-grwp-cynghori-ar-faterion-moesol-moesegol-covid-19-cymru

Yn ddiweddar, tynnwyd ein sylw at bryderon a fynegwyd gan y grwpiau sy'n cefnogi cymunedau anabl ac anabledd dysgu yng Nghymru. Roedd y pryderon hynny yn ymwneud â sut y gallai'r Raddfa Eiddilwch Clinigol gael ei defnyddio mewn modd amhriodol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â gofal unigolion sy'n cael triniaeth am COVID-19 – penderfyniadau ynglŷn a chynyddu'r gofal ac ynglŷn â pheidio â cheisio dadebru drwy ddulliau cardio-anadlol (DNACPR).

Ar 13 Ebrill 2020, cyhoeddodd Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru ddatganiad ynglŷn â hawliau pobl anabl yng Nghymru yn ystod lledaeniad COVID-19. Mae'r datganiad yn gofyn i ddarparwyr gofal ddilyn set o egwyddorion wrth drin unigolion ag anabledd. Mae dros 1100 o unigolion wedi cytuno i ddilyn yr egwyddorion hynny. Caiff y gyfraith a'r egwyddorion a amlinellir yn y datganiad eu hadlewyrchu yn ein Fframwaith o Werthoedd ac Egwyddorion. Gellir gweld y datganiad ar https://www.ldw.org.uk/coronavirus-covid-19-and-the-rights-of-disabled-people-in-wales/

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi mynegi pryderon hefyd ynglŷn â'r gofal a'r opsiynau o ran triniaeth a fydd ar gael i bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed. Mae rhai o'r unigolion hynny wedi teimlo dan bwysau i lofnodi ffurflenni DNACPR. Mynegwyd y pryderon hyn mewn datganiad a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Pobl Hŷn ar 6 Ebrill 2020: https://www.olderpeoplewales.com/cy/news/news/20-04-06/Treatment_decisions_and_Do_Not_Attempt_CPR_Protecting_people_s_rights.aspx

Nid ydym yn ymwybodol bod penderfyniadau DNACPR yn cael eu gwneud ar sail oedran unigolyn, y ffaith fod ganddo anabledd, anhawster dysgu, awtistiaeth, salwch iechyd meddwl neu unrhyw gyflwr arall. Serch hynny, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig tawelu meddyliau'r unigolion hynny sy'n byw gyda'r cyflyrau hyn a'u hanwyliaid yn ystod cyfnod mor anodd a phryderus.

Nod y llythyr hwn yw sicrhau eglurder ynghylch y broses o wneud penderfyniadau moesegol ar gyfer pobl ag unrhyw nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion hynny'n cynnwys oedran, pa mor agored i niwed yw'r unigolyn, a oes ganddo anabledd corfforol neu anabledd dysgu, awtistiaeth, salwch neu gyflyrau hirdymor, fel parlys yr ymennydd, cyflyrau iechyd meddwl parhaus neu broblem camddefnyddio sylweddau.

Ni ddylai oedran, anabledd na chyflwr hirdymor ar eu pennau eu hunain byth fod yn rheswm dros gyflwyno gorchymyn DNACPR yn erbyn dymuniadau'r unigolyn.

Mae'n parhau i fod yn hanfodol gwneud penderfyniadau ar sail sefyllfaoedd unigol a thrwy ymgynghori ag unigolion. Nid yw'n dderbyniol i gynlluniau gofal o flaen llaw, pa un a ydynt yn cynnwys ffurflen DNACPR wedi'i chwblhau ai peidio, gael eu defnyddio gyda grwpiau o bobl o unrhyw fath. Rhaid parhau i wneud y penderfyniadau hyn ar sail sefyllfaoedd unigol ac ar sail anghenion a dymuniadau'r unigolyn.

Cyhoeddodd NICE y canllawiau 'COVID-19 rapid guideline: critical care in adults - NICE guideline [NG159]' ar 20 Mawrth 2020. Diweddarwyd y canllawiau hynny ar 9 Ebrill 2020. Mae'r canllawiau'n nodi'n benodol na ddylid defnyddio Graddfa Eiddilwch Clinigol Rookwood gyda phobl iau na phobl ag anableddau hirdymor sefydlog (er enghraifft parlys yr ymennydd, anableddau dysgu neu awtistiaeth. Argymhellir cynnal asesiad unigol ym mhob achos er mwyn ystyried cydafiacheddau a chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd y llythyr hwn yn cael ei ddosbarthu'n eang i'n partneriaid yn y trydydd sector ac yn cael ei gyhoeddi ar ffurf hawdd ei ddeall.

Yn gywir

Dr Frank Atherton

Y Prif Swyddog Meddygol
Llywodraeth Cymru



Yr Athro Jean White CBE

Y Prif Swyddog Nyrsio
Llywodraeth Cymru